

# Deg talent: gweithiwr da


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Adroddodd Iesu stori o'r enw "Dameg y Deg Talent." Mae'n sôn am sut y dylien ni ddefnyddio'n ddoeth yr holl ddoniau ac adnoddau mae Duw wedi eu rhoi i ni.



Dywedodd y Meistr a roddodd arian i'w weithwyr i'w ddefnyddio tra'r oedd o i ffwrdd, "Gymrwch yr arian yma a defnyddiwch o i wneud mwy o arian i mi."




Cafodd un dyn un darn aur. Cafodd dyn arall ddau ddarn aur a chafodd y gweithiwr gorau o'r tri bum darn aur. "Defnyddiwch yr arian yma'n ddoeth hyd nes y dof fi'n ôl adref."



Gyda'i bum darn aur fe brynodd ac fe werthodd y gweithiwr gorau bethau ac fe wnaeth bum darn aur o elw i'w feistr. Fe ddefnyddiodd y gweithiwr ei ddau ddarn aur yn ddoeth hefyd.




Ond dyn diog oedd yr un gafodd un darn aur ac fe gladdodd yr arian yn yr ardd a doedd hynny o ddim defnydd i neb yn y fan honno. Dywedodd,"Fe wnai adael yr arian yn y fan hyn hyd nes y daw fy meistr yn ôl."



Daeth eu meistr yn ôl i weld beth oedden nhw wedi ei wneud â'i arian o.Roedd y dyn oedd wedi derbyn pum darn o arian wedi gwneud pum darn yn ychwaneg. Roedd y dyn oedd wedi derbyn dau ddarn aur wedi gwneud dau ddarn yn ychwaneg.



"Da iawn chi," canmolodd y Meistr. "Rydach chi'n weithwyr ardderchog. Nawr cewch chi fod yn feistri ar eraill." Ac meddai'r dyn diog," Wnes i guddio'r darn aur oherwydd tydy o ddim yn deg os ydw i'n gweithio a thithau'n cael yr arian."



"Pe byddet ti wedi rhoi fy arian yn y banc mi fyddwn i wedi cael ychwaneg o arian," meddai'r Meistr yn flin. " Dos o'ma. Rwyt ti'n ddyn diog." Rydw i eisiau gwneud y gorau o'r hyn y mae Duw wedi ei roi i mi. Rydw i eisiau clywed Iesu'n dweud, "Da iawn ti."